

Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 338 – 26 Hydref 2010

S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 337

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 337.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Cyfeiriodd at y rhaglen Noson Gwylwyr ar nos Lun. Roedd wedi bod yn gyfle i'r gynulleidfa ledled Cymru fynegi barn am wasanaethau S4C. Cafwyd 500 o ymatebion cyn y rhaglen yn ogystal â'r sylwadau ar y rhaglen a thrwy trydarau i'r Awdurdod ddefnyddio wrth lunio'r strategaeth i'r dyfodol.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Trafodaethau gyda'r DCMS

Cafwyd trafodaeth ar y llythyron a ddanfonodd Jeremy Hunt at y Cadeirydd ac at Syr Michael Lyons, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, a chytunwyd ar ffurf yr ymateb gan y Cadeirydd. Cytunwyd y dylid paratoi modelau posibl ar gyfer y trafodaethau i ddod a thrafodwyd cynrychiolaeth S4C yn y cyfarfodydd. Roedd y Cadeirydd i gwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru y diwrnod canlynol.

Adolygiad Mewnol

Bwriedir cynnal yr adolygiad mewnol cynhwysfawr fel yr awgrymwyd yn y ddogfen a gyflwynwyd i'r DCMS. Cymeradwywyd parhau â'r adolygiad.

Comisiynau 2011

Esboniodd AEO fod llythyron yn mynd at y cwmniau cynhyrchu yn egluro pa gytundebau fydd ddim yn cael eu cynnig ar gyfer 2011. Y bwriad yw darparu'r arlwy lawn yn 2011. Bydd swyddog yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio rhaglenni poblogaidd o'r archif.

Astudiaeth Effaith Economaidd S4C

Prif gasgliadau'r astudiaeth oedd bod dros 2,100 o swyddi yn cael eu cynnal yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru o ganlyniad i weithgareddau S4C, a bod 60% o'r sector gynhyrchu yn dibynnu ar fuddsoddiad S4C. Cymeradwywyd yr adroddiad.

4. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Nodwyd bod y ffigyrau gwyliau 16% yn uwch na'r un adeg y llynedd. Awgrymwyd sefydlu pwyllgor adolygu rhaglenni o fewn S4C. Bydd gwahoddiad i'r Aelodau fynychu'r cyfarfodydd.

4. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Amodau staffio
- Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol Ch 1-3
- Adroddiad Cyllid misol
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth